# Sicrwydd Oedran a Mynediad Plant

Datganiad

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 16 Ionawr 2025

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ........................................................................................................................ 3
2. Cyflwyniad, ein dyletswyddau, a defnyddio’r datganiad .................................................. 6
3. Dull gweithredu Ofcom yng nghyswllt sicrwydd oedran effeithiol iawn ......................... 14
4. Canllawiau ychwanegol ar agweddau sydd ond yn berthnasol i wasanaethau Rhan 5 .. 18
5. Asesiadau mynediad plant ......................................................................................... 20

# 1. Trosolwg

## Beth rydym yn ei wneud heddiw

Mae gwiriadau oedran cadarn yn un o gonglfeini'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Ein penderfyniadau heddiw ar sicrwydd oedran yw'r cam nesaf i weithredu'r Ddeddf a chreu bywyd mwy diogel ar-lein i bobl yn y DU, yn enwedig plant. Mae hyn yn dilyn cyhoeddi ein Codau a'n canllawiau Niwed Anghyfreithlon ym mis Rhagfyr 2024.

Mae'r ymchwil a'r dystiolaeth rydym wedi'u casglu yn ystod ein hymgynghoriadau yn dangos bod plant ar-lein yn y DU yn gallu cael mynediad at amrywiaeth eang o gynnwys sy'n niweidiol iddynt. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau pornograffig, deunyddiau sy'n hyrwyddo hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta, a chynnwys arall sy'n niweidiol i blant.

O heddiw ymlaen, mae gan bob gwasanaeth chwilio a gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr dri mis i asesu a yw plant yn debygol o gael mynediad atynt. Ar ôl llunio fersiynau terfynol ein Codau a'n canllawiau Amddiffyn Plant ym mis Ebrill 2025, bydd angen i lwyfannau mae plant yn debygol o gael mynediad atynt asesu'r risgiau maen nhw'n eu hachosi a chymryd camau i'w diogelu – gallai hyn gynnwys defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i'w hatal rhag cael mynediad at gynnwys niweidiol.

Rhaid i bob darparwr gwasanaeth sy'n caniatáu pornograffi roi sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith i sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws cynnwys pornograffig.

Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn cael ei rhoi ar waith fesul cam. Rydym yn nodi dull gweithredu heddiw yng nghyswllt sicrwydd oedran effeithiol iawn ac rydym yn disgwyl iddo fod yn berthnasol i bob rhan o'r drefn diogelwch ar-lein. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i ddarparwyr am y camau mae angen iddynt eu cymryd i fodloni ein rheolau.

## Beth fydd yn newid

Bydd y datganiad hwn, ynghyd â'n Codau a'n canllawiau Amddiffyn Plant y byddwn yn eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2025, yn arwain at newid mawr ym mhrofiad plant ar-lein drwy gyfres uchelgeisiol o fesurau diogelu:

- **Asesiadau mynediad plant:** rhaid i'r holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio sydd o fewn cwmpas y Ddeddf gynnal asesiad o fynediad plant i benderfynu a yw plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaeth, neu ran ohono. **O heddiw ymlaen**, mae gan y gwasanaethau hyn dri mis (**erbyn 16 Ebrill 2025 fan bellaf**) i gwblhau eu hasesiad mynediad plant. Oni bai eu bod eisoes yn defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn, rydym yn rhagweld y bydd angen i'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn ddod i'r casgliad bod plant yn debygol o gael mynediad atynt o fewn ystyr y Ddeddf. O dan y Ddeddf, rhaid i wasanaethau mae plant yn debygol o gael mynediad atynt gydymffurfio â'r dyletswyddau asesu'r risg i blant a'r dyletswyddau diogelwch plant.
- **Mesurau i amddiffyn plant:** byddwn yn cyhoeddi ein Codau Amddiffyn Plant a chanllawiau asesu'r risg i blant (ynghyd â chanllawiau eraill) ym mis Ebrill 2025. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i wasanaethau mae plant yn debygol o gael mynediad atynt gynnal asesiad o'r

risg i blant **erbyn mis Gorffennaf 2025** – hynny yw, o fewn tri mis. Ar ôl hyn, bydd angen iddynt roi mesurau ar waith i amddiffyn plant ar eu gwasanaethau yn unol â'n Codau Amddiffyn Plant i fynd i'r afael â'r risgiau o niwed a nodwyd. Gall y mesurau hyn gynnwys cyflwyno sicrwydd oedran i atal plant rhag cael mynediad at eu llwyfan a/neu eu hamddiffyn rhag cynnwys niweidiol.

- **Gwasanaethau sy'n caniatáu pornograffi:** rhaid i bob gwasanaeth sy'n caniatáu pornograffi fod â sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith **erbyn mis Gorffennaf 2025 fan bellaf** er mwyn atal plant rhag cael mynediad ato. Mae'r Ddeddf yn gosod terfynau amser gwahanol ar wahanol fathau o ddarparwyr. Rhaid i wasanaethau sy'n dangos neu'n cyhoeddi eu cynnwys pornograffig eu hunain, gan gynnwys rhai offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol, **ddechrau cymryd camau ar unwaith** i gyflwyno gwiriadau oedran cadarn. Rhaid i wasanaethau sy'n lletya cynnwys pornograffig a gynhyrchir gan ddefnyddwyr fod â gwiriadau oedran ar waith yn llawn erbyn mis Gorffennaf.

## Beth mae sicrwydd oedran effeithiol iawn yn ei olygu

Heddiw, rydym yn nodi ein casgliadau am yr hyn rydym yn ei ystyried sy'n 'sicrwydd oedran effeithiol iawn'. Mae ein dull gweithredu yn hyblyg, yn niwtral o ran technoleg ac yn addas i'r dyfodol, ac mae amddiffyn plant yn gwbl ganolog iddo. Yn ein dull gweithredu yng nghyswllt sicrwydd oedran effeithiol iawn rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cadarnhau'r meini prawf mae'n rhaid i ddulliau sicrwydd oedran eu bodloni er mwyn cael eu hystyried yn rhai effeithiol iawn: dylent fod yn dechnegol gywir, yn gadarn, yn ddibynadwy ac yn deg;
- Nodi rhestr nad yw'n gynhwysfawr o ddulliau sicrwydd oedran sy'n gallu bod yn effeithiol iawn yn ein barn ni, gan gynnwys gwiriadau oedran gweithredwyr rhwydweithiau symudol, archwiliadau cardiau credyd, gwasanaethau adnabod digidol a rhai dulliau o amcangyfrif oedran;
- Cadarnhau nad yw dulliau sicrwydd oedran llai effeithiol – gan gynnwys hunan-ddatgan oedran a thalu ar-lein lle nad oes yn rhaid i rywun fod yn 18 oed – yn cydymffurfio â'r gofyniad i gael sicrwydd oedran effeithiol iawn;
- Datgan na ddylai cynnwys niweidiol fod yn weladwy i ddefnyddwyr cyn nac yn ystod y broses o gwblhau gwiriad oedran;
- Egluro na ddylai gwasanaethau letya na chaniatáu cynnwys sy'n cyfarwyddo nac yn annog plant i geisio osgoi rheolaethau oedran a mynediad; a
- Gosod disgwyliadau bod gwasanaethau'n ystyried buddiannau pob defnyddiwr wrth weithredu sicrwydd oedran – gan roi amddiffyniad cryf i blant, ar yr un pryd â pharchu hawliau preifatrwydd.

## Y camau nesaf

Rydym yn disgwyl i bob darparwr fynd ati'n rhagweithiol i gydymffurfio a chwrdd â'r terfynau amser a nodir uchod. Mae Ofcom yn agor rhaglen orfodi heddiw i fonitro ac i asesu cydymffurfiad â'r gofynion i weithredu sicrwydd oedran effeithiol iawn ar wasanaethau sy'n caniatáu cynnwys pornograffig. Yn gyntaf, byddwn yn canolbwyntio ar wasanaethau sy'n cyhoeddi eu cynnwys

pornograffig eu hunain, gan ymestyn y rhaglen i gynnwys yr holl wasanaethau perthnasol cyn gynted ag y daw'r dyletswyddau diogelwch plant ehangach i rym.

Byddwn yn cysylltu ag ystod eang o wasanaethau i oedolion – mawr a bach – i roi gwybod iddynt am eu rhwymedigaethau newydd ac i fonitro eu cydymffurfiad. Ni fyddwn yn oedi cyn cymryd camau gorfodi yn erbyn gwasanaethau nad ydynt yn cydymffurfio.

Fel y nodir yn ein map diweddaraf,[1] yn dilyn cyhoeddi ein Codau Niwed Anghyfreithlon ym mis Rhagfyr, mae ail gam ein gwaith o weithredu'r Ddeddf bellach ar y gweill. Mae cerrig milltir y dyfodol yn cynnwys:

- **Chwefror 2025:** Ymgynghoriad ar Ganllawiau drafft ar fesurau diogelu ehangach i fenywod a merched;
- **Ebrill 2025:** Datganiad Amddiffyn Plant, gan gynnwys y Codau a'r canllawiau Amddiffyn Plant terfynol, yn dilyn ein Hymgynghoriad ym mis Mai 2024; a
- **Gwanwyn 2025:** Ymgynghoriad ar fesurau Codau Ymarfer ychwanegol, gan gynnwys cynigion ar ymestyn rôl sicrwydd oedran effeithiol iawn i amddiffyn plant rhag meithrin perthynas amhriodol.

Bydd cam tri yn gosod gofynion ychwanegol i wasanaethau wedi'u categoreiddio, gan ganolbwyntio ar ddod â lefel uwch o ddiogelwch, tryloywder ac atebolrwydd i rai o'r darparwyr gwasanaethau mwyaf sy'n gweithredu yn y byd ar-lein. Gan fod y trothwyon categoreiddio bellach wedi cael eu cyhoeddi,[2] rydym yn disgwyl cyflawni'r gwaith hwn yn unol â'r amserlen ganlynol:

- **Haf 2025:** Cyhoeddi'r gofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio;
- **Haf 2025:** Cyhoeddi hysbysiadau tryloywder drafft a therfynol i wasanaethau wedi'u categoreiddio; a
- **Dechrau 2026:** Cyhoeddi cynigion drafft am y dyletswyddau ychwanegol ar wasanaethau wedi'u categoreiddio. Ar sail ein profiad o gyhoeddiadau rheoleiddio mawr, ein rhagdybiaeth cynllunio ar hyn o bryd yw cyhoeddi'r Datganiad tua blwyddyn ar ôl ymgynghori.

[1] Ofcom, 2024 Dulliau Ofcom ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein.
[2] Fersiwn drafft Rheoliadau Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 (Amodau Trothwy Categori 1, Categori 2A a Chategori 2B) 2025

# 2. Cyflwyniad, ein dyletswyddau, a defnyddio'r datganiad

Mae'r adran hon yn rhoi cyflwyniad lefel uchel i'n datganiad. Rydym yn crynhoi ein dyletswyddau a'n swyddogaethau allweddol perthnasol, yn egluro'r hyn sy'n cael sylw yn y datganiad ac yn nodi'r camau nesaf.

## Beth sydd yn yr adran hon

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o rai o'n dyletswyddau a'n swyddogaethau perthnasol allweddol.[3] Mae'r adran hon hefyd yn egluro'r hyn sy'n cael sylw yn y datganiad hwn ac yn nodi'r camau nesaf.

2.2 Rydym yn galw ein dogfennau penderfyniad yn 'ddatganiadau' oherwydd eu bod yn ddatganiadau o'n rhesymeg dros ein penderfyniadau. Y datganiad hwn yw'r cam cyntaf i roi'r drefn reoleiddio diogelwch ar-lein newydd ar waith i amddiffyn plant, a sefydlwyd gan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 (y Ddeddf).

## Trosolwg o'r fframwaith cyfreithiol

### Dyletswyddau cyffredinol Ofcom

2.3 Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu. Mae gennym gyfrifoldebau rheoleiddio ar gyfer y sectorau telegyfathrebu, post a darlledu, yn ogystal â gwasanaethau ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddiwr-i-ddefnyddiwr (U2U), gwasanaethau chwilio a phornograffi sy'n cael eu rheoleiddio o dan y Ddeddf, yn ogystal â gwasanaethau fideos ar-lein, fel gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS) a llwyfannau rhannu fideos (VSPs) sydd wedi'u sefydlu yn y DU.[4]

2.4 Gan fod Ofcom yn awdurdod cyhoeddus, mae'n rhaid iddo weithredu'n gyfreithlon, yn rhesymegol ac yn deg.

2.5 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 (Deddf 2003) yn rhoi nifer o ddyletswyddau arnom y mae'n rhaid i ni eu cyflawni wrth weithredu ein swyddogaethau rheoleiddio, gan gynnwys ein swyddogaethau diogelwch ar-lein. Mae Deddf 2003 yn datgan mai ein prif ddyletswydd wrth gyflawni ein swyddogaethau yw:

- hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu; a

[3] Mae rhagor o fanylion am y fframwaith cyfreithiol ar gael yn Atodiad 1.
[4] I gael rhagor o fanylion am natur y gwasanaethau hyn sy'n cael eu rheoleiddio, ewch i Trosolwg o wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio o'n datganiad Rhagfyr 2024 Diogelu pobl rhag niwed anghyfreithlon ar-lein.

- hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth.[5]

2.6 Wrth gyflawni'r brif ddyletswydd honno, mae'n rhaid i ni ystyried yr egwyddorion a nodir yn Neddf 2003, sy'n nodi y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at yr achosion lle mae angen cymryd camau.[6]

2.7 Wrth gyflawni ein swyddogaethau, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau, yn benodol, bod dinasyddion yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag niwed sy'n cael ei achosi gan gynnwys ar wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, drwy sicrhau bod darparwyr yn defnyddio systemau a phrosesau priodol sydd wedi'u dylunio i leihau'r risg o niwed.[7]

2.8 Mae Deddf 2003 hefyd yn mynnu[8] bod yn rhaid i ni roi sylw i'r canlynol fel y maent yn ymddangos yn berthnasol i ni yn yr amgylchiadau. Wrth wneud ein penderfyniadau, rydym wedi ystyried ffactorau gan gynnwys y canlynol, ond nid dim ond y rhain:

- y risg o niwed i ddinasyddion a gyflwynir gan wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio;
- yr angen am lefel uwch o amddiffyniad i blant nag i oedolion;
- yr angen iddo fod yn glir i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sut gallant gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf;
- yr angen i arfer ein swyddogaethau i sicrhau y gall darparwyr gydymffurfio â dyletswyddau o'r fath drwy gymryd neu drwy ddefnyddio mesurau, systemau neu brosesau sy'n gymesur â maint neu gapasiti'r darparwr a lefel y risg (a difrifoldeb posibl) y niwed a gyflwynir gan y gwasanaeth;
- pa mor ddymunol yw hyrwyddo defnyddio technolegau sydd wedi'u dylunio i leihau'r risg o niwed i ddinasyddion; ac
- i ba raddau mae darparwyr yn dangos eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau mewn ffordd dryloyw ac atebol.

2.9 Yn unol â'n dyletswyddau ychwanegol o dan Ddeddf 2003,[9] rydym hefyd wedi ystyried pa mor agored i niwed yw plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau'n golygu bod angen eu hamddiffyn yn arbennig. Rydym wedi ystyried:

- pa mor ddymunol yw hybu cystadleuaeth ac annog buddsoddi ac arloesi mewn marchnadoedd perthnasol;
- anghenion pobl anabl, yr henoed a'r rhai sydd ar incwm isel;
- barn defnyddwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol;
- buddiannau pobl yng ngwahanol rannau'r Deyrnas Unedig; a
- buddiannau'r gwahanol gymunedau ethnig yn y Deyrnas Unedig.

---

[5] Adran 3(1) o Ddeddf 2003.
[6] Rhaid i ni hefyd ystyried unrhyw egwyddorion eraill y mae'n ymddangos i ni eu bod yn cynrychioli'r arferion rheoleiddio gorau.
[7] Adran 3(2)(g) o Ddeddf 2003 (fel y'i diwygiwyd gan adran 91 o'r Ddeddf).
[8] Adran 3(4A) o Ddeddf 2003.
[9] Adran 3(4) o Ddeddf 2003.

## Diogelwch plant o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein

2.10 Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer fframwaith rheoleiddio newydd sydd â'r pwrpas cyffredinol o'i gwneud hi'n fwy diogel i unigolion yn y DU ddefnyddio gwasanaethau rhyngrwyd sy'n cael eu rheoleiddio. Mae sicrhau gwell amddiffyniad i blant fel eu bod yn fwy diogel ar-lein yn un o amcanion craidd y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn nodi'n glir mai nod y dyletswyddau a osodir ar wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yw sicrhau (ymysg pethau eraill) eu bod yn ddiogel drwy ddyluniad, a'u bod yn cael eu dylunio a'u gweithredu mewn ffordd sy'n rhoi safon uwch o amddiffyniad i blant nag i oedolion.[10]

2.11 Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau U2U sy'n cael eu rheoleiddio a darparwyr gwasanaethau chwilio sy'n cael eu rheoleiddio i nodi, i liniaru ac i reoli'r risgiau o niwed o gynnwys a gweithgarwch anghyfreithiol a chynnwys a gweithgarwch sy'n niweidiol i blant. Rydym yn galw'r gwasanaethau hyn yn "wasanaethau Rhan 3". Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys dyletswydd i gynnal asesiadau o fynediad plant er mwyn penderfynu a yw "plant yn debygol o gael mynediad" at y gwasanaeth.[11] Mae gwasanaethau Rhan 3 mae "plant yn debygol o gael mynediad" atynt yn rhwym wrth ddyletswyddau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag cynnwys sy'n gyfreithlon ond sy'n niweidiol iddynt (a elwir yn "gynnwys sy'n niweidiol i blant"[12]).[13] Rydym yn egluro'r dyletswyddau hyn yn fanylach yn Atodiad 1.

2.12 Mae Rhan 5 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau penodol ar ddarparwyr gwasanaethau sy'n dangos neu'n cyhoeddi cynnwys pornograffig ar eu gwasanaethau ar-lein. Rydym yn galw'r gwasanaethau hyn yn "wasanaethau Rhan 5". Mae'r rhain yn cynnwys y ddyletswydd i roi sicrwydd oedran ar waith i sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws cynnwys o'r fath a dyletswyddau sy'n ymwneud â chadw cofnodion.[14] Rhaid gweithredu a defnyddio'r sicrwydd oedran mewn ffordd sy'n effeithiol iawn wrth benderfynu'n gywir a yw defnyddiwr yn blentyn ai peidio. Rydym yn egluro'r dyletswyddau hyn yn fanylach yn Atodiad 1.

2.13 Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswyddau ar Ofcom i:

- Llunio canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau Rhan 3 i'w helpu i gydymffurfio â'u dyletswyddau mewn perthynas ag asesiadau mynediad plant.[15]
- Paratoi a chyhoeddi Codau Ymarfer – mae'r rhain yn becyn o fesurau a argymhellir i ddarparwyr gwasanaethau gydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch o dan y Ddeddf, gan gynnwys y dyletswyddau ar wasanaethau Rhan 3 mae plant yn debygol o gael mynediad atynt sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.[16] Wrth baratoi'r Codau

---

[10] Adran 1 o'r Ddeddf. Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y dyletswyddau a osodir ar Ofcom o dan y Ddeddf, gan gynnwys y ddyletswydd ar Ofcom i ystyried wrth gyflawni ein swyddogaethau diogelwch ar-lein yr angen am lefel uwch o amddiffyniad i blant nag i oedolion (a3(4A)(b)).
[11] Adrannau 35-37 o'r Ddeddf.
[12] Fel y diffinnir yn adran 60 o'r Ddeddf.
[13] Fel y nodir yn adrannau 11-13 a 20-21 ar gyfer gwasanaethau U2U sy'n cael eu rheoleiddio ac adrannau 28-30 a 31-32 ar gyfer gwasanaethau chwilio sy'n cael eu rheoleiddio.
[14] Adran 81 o'r Ddeddf.
[15] Adran 52(3)(b) o'r Ddeddf.
[16] Adran 41 o'r Ddeddf.

Ymarfer, rhaid i Ofcom ystyried yr egwyddorion a'r amcanion a nodir yn Atodlen 4 i'r Ddeddf.[17]

- Llunio canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau Rhan 5 i'w helpu i gydymffurfio â'u dyletswyddau sicrwydd oedran a chadw cofnodion.[18]

## Asesiad effaith

2.14 Mae asesiadau effaith yn ffordd werthfawr o werthuso'r opsiynau i reoleiddio a dangos pam y dewiswyd yr opsiwn/opsiynau sy'n cael eu ffafrio. Maent yn rhan o'r broses o lunio polisi ar sail yr arferion gorau. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn adran 7 o Ddeddf 2003, sy'n mynnu bod Ofcom yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Fel mater o bolisi, mae Ofcom wedi ymrwymo i gynnal asesiadau effaith ar gyfer mwyafrif helaeth o'n penderfyniadau polisi. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig. Rydym yn trafod ein hasesiadau effaith ar y mesurau sy'n cael sylw yn y datganiad hwn yn Atodiad 2.

## Hawliau dynol

2.15 Mae'n anghyfreithiol i Ofcom weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ('ECHR').[19]

2.16 Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10 ECHR) a'r hawl i breifatrwydd (Erthygl 8 ECHR) sy'n arbennig o berthnasol i swyddogaethau Ofcom o dan y Ddeddf. Hawliau ECHR eraill a allai hefyd fod yn berthnasol i swyddogaethau Ofcom o dan y Ddeddf yw'r hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd (Erthygl 9 ECHR) a'r hawl i ryddid i ymgynnull a chymdeithasu (Erthygl 11 ECHR). Wrth lunio ein penderfyniadau yn y datganiad hwn, rydym wedi dadansoddi'n ofalus lle rydym wedi nodi'r potensial i ymyrryd â'r hawliau ECHR, er mwyn sicrhau bod unrhyw ymyrryd o'r fath yn gymesur. Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn Atodiad 2.

## Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg

2.17 Rydym wedi ystyried effeithiau'r canllawiau a nodir yn y datganiad hwn ar gydraddoldeb, gan roi manylion ein dealltwriaeth o unrhyw effeithiau penodol ar grwpiau gwarchodedig yn y DU.

2.18 Pan fo'n berthnasol ac i'r graddau mae gennym ddisgresiwn i wneud hynny wrth arfer ein swyddogaethau, rydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'r angen i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (yn unol â safonau'r Gymraeg).

---

[17] Fel sy'n cael ei egluro isod, nid ydym yn dod i unrhyw benderfyniadau terfynol ar Godau Amddiffyn Plant Ofcom yn y datganiad hwn a byddwn yn gwneud hynny yn ein datganiad ym mis Ebrill. Fodd bynnag, rydym wedi nodi yn Atodiad 1 y darpariaethau perthnasol yn Atodlen 4 er mwyn bod yn gyflawn.

[18] Adran 82 o'r Ddeddf.

[19] Adran 7 o Ddeddf 2003, fel y'i diwygiwyd gan adran 93 o'r Ddeddf.

2.19 Rydym wedi cynnwys ein hystyriaethau ar yr effeithiau penodol hynny yn Atodiad 2.

## Beth sydd yn y datganiad hwn

2.20 Mae'r penderfyniadau sy'n cael eu hegluro yn y datganiad hwn yn nodi ein safbwyntiau terfynol ar sicrwydd oedran effeithiol iawn (HEAA) a beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer y tri darn o ganllawiau i ddiwydiant rydym yn eu cyhoeddi heddiw o dan y Ddeddf: ein Canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cyhoeddi cynnwys pornograffig ("Canllawiau Rhan 5"), ein Canllawiau i wasanaethau Rhan 3 ar sicrwydd oedran effeithiol iawn ("Canllawiau HEAA Rhan 3") a'n Canllawiau ar Asesiadau Mynediad Plant.

2.21 Wrth gyrraedd ein safbwyntiau terfynol, rydym wedi ystyried ymatebion i'n hymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2023, Canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cyhoeddi cynnwys pornograffig ("Ymgynghoriad Rhan 5 Rhagfyr 2023"),[20] ynghyd ag ymatebion i'n hymgynghoriad ym mis Mai 2024, Amddiffyn Plant rhag Niwed Ar-lein ("Ymgynghoriad Mai 2024")[21] a oedd yn ymwneud â'n dull gweithredu cyffredinol ar gyfer sicrwydd oedran effeithiol iawn a'n dull gweithredu ar gyfer asesiadau mynediad plant. Mae ein disgwyliadau o ran safon y sicrwydd oedran effeithiol iawn yn gyson ar draws Rhan 5 a Rhan 3 o'r Ddeddf.

2.22 Nid yw'r datganiad hwn yn ystyried adborth rhanddeiliaid ar y mesurau sicrwydd oedran arfaethedig yn y Cod Ymarfer Amddiffyn Plant drafft ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'n Hymgynghoriad ym mis Mai 2024.[22] Bydd ein crynodeb a'n hystyriaeth o'r ymatebion hyn yn cael eu nodi yn ein Datganiad Amddiffyn Plant ym mis Ebrill 2025.[23]

2.23 Rydym yn cadarnhau'n fras y dull gweithredu arfaethedig a nodwyd gennym yn ein hymgynghoriadau ym mis Rhagfyr 2023 ac ym mis Mai 2024, a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau'r canlyniadau gorau i amddiffyn plant ar-lein yn ystod blynyddoedd cynnar y drefn. Er mwyn i'w proses sicrwydd oedran fod yn effeithiol iawn, mae angen i ddarparwyr gwasanaethau fodloni pedwar maen prawf: cywirdeb technegol, cadernid, dibynadwyedd a thegwch. Rydym yn cydnabod bod nifer o wahanol ddulliau sicrwydd oedran sy'n gallu bod yn effeithiol iawn ac rydym wedi mynd ati'n fwriadol i fabwysiadu dull hyblyg, niwtral o ran technoleg, sy'n addas i'r dyfodol. Dylai darparwyr gwasanaethau hefyd ystyried egwyddorion hygyrchedd a'r gallu i ryngweithredu. Rydym hefyd yn glir, wrth roi proses sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith, bod gwasanaethau hefyd yn rhwym wrth gyfreithiau diogelu data. Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gydymffurfio â'r drefn diogelwch ar-lein a diogelu data, ac ni ddylid ystyried bod un yn cymryd lle'r llall. Rydym

---

[20] Ofcom, 2023 Ymgynghoriad:Canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cyhoeddi cynnwys pornograffig
[21] Ofcom, 2024 Ymgynghoriad: Amddiffyn plant rhag niwed ar-lein - Ofcom
[22] Ofcom, 2024, Cod Ymarfer Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr. Roeddem yn galw'r Codau Ymarfer Amddiffyn Plant drafft yn 'Godau Diogelwch Plant' drafft yn ein Hymgynghoriad ym mis Mai 2024.
[23] Ym mis Ebrill 2025, pan fyddwn yn cyhoeddi ein Datganiad Amddiffyn Plant, byddwn yn diweddaru ein Canllawiau HEAA Rhan 3 gan gyfeirio at y Cod Amddiffyn Plant terfynol a'r Canllawiau Asesu Risg i Blant fel y bo'n briodol, gan gynnwys i adlewyrchu unrhyw newidiadau i eiriad mesurau'r Codau perthnasol. Ar ôl Ebrill 2025, efallai byddwn yn diweddaru'r canllawiau lle bo angen i adlewyrchu unrhyw fesurau sicrwydd oedran yn y dyfodol.

wedi nodi rhestr anghyflawn o'r mathau o sicrwydd oedran a allai fod yn effeithiol iawn, ond darparwyr gwasanaethau sy'n gyfrifol am asesu a yw eu proses sicrwydd oedran yn bodloni ein pedwar maen prawf. Nid ydym o'r farn y byddai'n briodol cyflwyno trothwyon rhifiadol ar hyn o bryd i gefnogi'r meini prawf fel dangosydd cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, efallai byddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol, wrth aros am ddatblygiadau pellach o ran methodoleg profi, safonau'r diwydiant, a thystiolaeth annibynnol ar berfformiad a galluoedd gwahanol ddulliau sicrwydd oedran.

2.24 Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o wasanaethau i oedolion, sy'n effeithio ar amseriad gweithredu sicrwydd effeithiol iawn. Rhaid i wasanaethau Rhan 5 gynnal gwiriadau oedran ar unwaith. Bydd yn rhaid i wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n caniatáu cynnwys pornograffig roi mesurau sicrwydd oedran ar waith o fis Gorffennaf ymlaen, pan fyddwn yn disgwyl i'r dyletswyddau diogelwch plant ddod i rym ar ôl cyhoeddi ein Codau Amddiffyn Plant.[24] Y gwasanaethau eu hunain sydd i asesu a yw'r cynnwys sydd ar eu safleoedd yn perthyn i Ran 5 neu i Ran 3 a chymryd y camau angenrheidiol i gyflawni eu rhwymedigaethau.

2.25 O ran strwythur y datganiad hwn:

- Yn Adran 3, rydym yn nodi ein safbwynt terfynol ar ein dull gweithredu ar gyfer sicrwydd oedran effeithiol iawn ar gyfer gwasanaethau Rhan 3 a Rhan 5, gan gynnwys ein rhesymeg a'n hymateb i safbwyntiau ymatebwyr. Mae'r dull HEAA hwn yn cael ei adlewyrchu yn ein Canllawiau Rhan 5 a'n Canllawiau HEAA Rhan 3.
- Yn Adran 4, rydym yn nodi ein safbwynt terfynol ar ystyriaethau eraill sy'n benodol i Ganllawiau Rhan 5, y tu hwnt i'r ddyletswydd i sicrhau bod sicrwydd oedran yn effeithiol iawn wrth benderfynu'n gywir a yw defnyddiwr yn blentyn. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar gwmpas Rhan 5, cadw cofnodion, a'n dull o orfodi dyletswyddau Rhan 5.
- Yn Adran 5, rydym yn nodi ein safbwynt terfynol ar asesiadau mynediad plant. Mae'r adran hon yn nodi dau gam yr asesiad mynediad plant. Ar gyfer cam 1, mae'n egluro ein dull gweithredu o ran sut gall gwasanaethau benderfynu a yw'n bosibl i blant gael mynediad at eu gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at a oes gan wasanaethau sicrwydd oedran ar waith a fyddai'n bodloni'r meini prawf yn adran 3 ac felly'n gallu cael eu hystyried yn effeithiol iawn. Ar gyfer cam 2, mae'r adran hon yn egluro ein penderfyniad a'n rhesymeg i ddarparu meini prawf ac enghreifftiau i wasanaethau asesu a ydynt yn bodloni'r amod defnyddiwr sy'n blentyn (sy'n pennu a yw plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaeth).
- Mae Atodiad 1 yn nodi ein fframwaith cyfreithiol.
- Mae Atodiad 2 yn nodi ein dull gweithredu ar gyfer asesiadau effaith, sy'n cynnwys ein hasesiad effaith ar gyfer ein dull gweithredu o ran sicrwydd oedran effeithiol iawn ac elfennau eraill o Ganllawiau Rhan 5, ein hasesiad effaith ar gyfer ein dull gweithredu o ran asesiadau mynediad plant, ynghyd â'n hasesiadau penodol o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg yn ogystal ag asesiadau hawliau.

[24] Gweler Adrannau 12(4)-(6) o'r Ddeddf.


- Yn Atodiad 3, rydym yn nodi'r dystiolaeth rydym wedi'i defnyddio i lunio'r rhestr o ffactorau i'w hystyried ar gyfer asesiadau mynediad plant. Yn wreiddiol, fe wnaethom nodi'r dystiolaeth hon yn Adran 5 ein Hymgynghoriad ym mis Mai 2024 ac rydym wedi diweddaru ffynonellau lle mae canfyddiadau mwy diweddar ar gael erbyn hyn.
- Mae Atodiad 4 yn cynnwys rhestr o'r termau a ddefnyddir yn y datganiad hwn.

2.26 Rydym wedi cyhoeddi'r tri darn o ganllawiau rydym yn eu trafod yn y datganiad hwn ar wahân:

- Canllawiau i wasanaethau Rhan 3 ar sicrwydd oedran effeithiol iawn ("Canllawiau HEAA Rhan 3")
- Canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cyhoeddi cynnwys pornograffig ("Canllawiau Rhan 5")
- Canllawiau ar Asesiadau Mynediad Plant

2.27 Mae Ffigur 2.1 isod yn dangos pa adrannau o'r datganiad hwn (sy'n cael eu dangos mewn porffor), a pha un o'n tair dogfen canllawiau (a ddangosir mewn gwyrdd) sy'n debygol o fod yn berthnasol i wahanol fathau o wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio.

**Ffigur 2.1 Sicrwydd oedran a dyletswyddau a chanllawiau mynediad plant**



# Y camau nesaf

2.28 Mae cyhoeddi'r Canllawiau Asesiadau Mynediad Plant yn dechrau'r cloc i ddarparwyr gwasanaethau presennol gynnal eu hasesiad cyntaf o fynediad plant o dan y Ddeddf. Rhaid cwblhau'r rhain erbyn tri mis o ddyddiad y datganiad hwn, h.y. erbyn **16 Ebrill 2025**.

2.29 Bydd gan yr holl wasanaethau Rhan 3 sydd wedi dod i'r casgliad bod plant yn debygol o gael mynediad atynt dri mis ar ôl cyhoeddi ein Canllawiau Asesu Risg i Blant terfynol i gynnal eu hasesiad risg i blant cyntaf. Byddwn yn cyhoeddi ein Canllawiau Asesu Risg i Blant ym mis Ebrill 2025 i helpu gwasanaethau i gynnal eu hasesiadau risg i blant.

2.30 Byddwn yn cyhoeddi ein Codau Amddiffyn Plant terfynol ym mis Ebrill 2025. Bydd angen i wasanaethau sydd o fewn cwmpas y dyletswyddau diogelwch plant fod yn barod i gydymffurfio â nhw o fis Gorffennaf 2025 ymlaen, sef y dyddiad dri mis ar ôl cwblhau eu hasesiad risg i blant cyntaf. Gall hyn gynnwys rhoi sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith ar gyfer rhai gwasanaethau sy'n caniatáu pornograffi a chynnwys arall sy'n niweidiol i blant ar eu gwasanaeth.

2.31 Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau Rhan 5 gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf, gan gynnwys y gofyniad i ddefnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn, o 17 Ionawr 2025 ymlaen pan fydd y dyletswyddau'n dechrau.[25]

[25] Gweler Rheoliadau Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 (Cychwyn Rhif 4) 2024

# 3. Dull gweithredu Ofcom yng nghyswllt sicrwydd oedran effeithiol iawn

Yn yr adran hon, rydym yn cadarnhau ein dull gweithredu yng nghyswllt sicrwydd oedran effeithiol iawn.

O dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 ("y Ddeddf"), mae darparwyr gwasanaethau sy'n dangos neu'n cyhoeddi eu cynnwys pornograffig eu hunain ar-lein ("gwasanaethau Rhan 5") yn rhwym wrth nifer o ddyletswyddau, gan gynnwys dyletswydd i ddefnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws cynnwys pornograffig.

Rhaid i bob gwasanaeth chwilio a gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ("gwasanaethau Rhan 3") gynnal asesiadau mynediad plant i benderfynu a yw plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaeth. Fel rydym yn ei gadarnhau yn Adran 5 y datganiad hwn, gall darparwyr gwasanaethau ddod i'r casgliad nad yw plant yn debygol o gael mynediad os ydynt yn defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn gyda'r canlyniad nad yw plant fel arfer yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth.

Mae'n rhaid i Ofcom gynhyrchu a chyhoeddi canllawiau i wasanaethau Rhan 5 i'w helpu i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ran 5 o'r Ddeddf. Rydym yn galw hyn yn "Ganllawiau Rhan 5". Mae Adran 4 o'r Canllawiau Rhan 5 yn egluro beth mae sicrwydd oedran effeithiol iawn yn ei olygu i ni.

Rydym hefyd wedi dewis cynhyrchu a chyhoeddi canllawiau i wasanaethau chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cael eu rheoleiddio ("gwasanaethau Rhan 3") i'w helpu i gydymffurfio â'u dyletswyddau i roi sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith. Rydym yn galw hyn yn "Ganllawiau HEAA Rhan 3". Mae'r Canllawiau HEAA Rhan 3 yn egluro beth mae sicrwydd oedran effeithiol iawn yn ei olygu i ni at ddibenion asesiad mynediad plant a dyletswyddau diogelwch plant ehangach. Yn y datganiad hwn, nid ydym yn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ar ein mesurau sicrwydd oedran. Byddwn yn llunio fersiwn terfynol ein mesurau sicrwydd oedran ym mis Ebrill ac yn diweddaru Canllawiau HEAA Rhan 3 fel y bo'n briodol.

Mae ein dull gweithredu yng nghyswllt sicrwydd oedran effeithiol iawn yn gyson ar draws gwasanaethau Rhan 5 a gwasanaethau Rhan 3. Er mwyn asesu a yw eu proses sicrwydd oedran yn effeithiol iawn, mae angen i ddarparwyr gwasanaethau fodloni pedwar maen prawf: cywirdeb technegol, cadernid, dibynadwyedd a thegwch. Rydym hefyd yn glir, wrth roi proses sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith, bod gwasanaethau hefyd yn rhwym wrth gyfreithiau diogelu data, ac rydym yn cyfeirio at y gofynion perthnasol y dylai gwasanaethau eu dilyn.

Yn yr adran hon, rydym yn nodi ein hystyriaeth o'r ymatebion a gawsom gan randdeiliaid i'n Canllawiau Rhan 5 a'r Canllawiau HEAA Rhan 3 drafft mewn perthynas â sicrwydd oedran effeithiol iawn, ynghyd â'n rhesymau dros wneud ein penderfyniadau. Yn Adran 4 y

datganiad hwn rydym yn nodi ein safbwynt terfynol ar y dyletswyddau ychwanegol ar wasanaethau Rhan 5.

# Cyflwyniad

3.1 Yn yr adran hon, rydym yn sôn am ein penderfyniadau ar ddull gweithredu Ofcom yng nghyswllt sicrwydd oedran effeithiol iawn. Mae angen i wasanaethau sy'n dangos neu'n cyhoeddi eu cynnwys pornograffig eu hunain (h.y. gwasanaethau Rhan 5) roi sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith i sicrhau nad yw "plant fel arfer yn gallu dod ar draws" cynnwys o'r fath. Efallai bydd angen i wasanaethau U2U a chwilio o fewn cwmpas y Ddeddf (h.y. gwasanaethau Rhan 3) hefyd ystyried y cysyniad o sicrwydd oedran effeithiol iawn wrth gynnal asesiadau mynediad plant neu fel rhan o'r ystod o fesurau y gallai fod angen iddynt eu rhoi ar waith i amddiffyn plant. Mae'r cysyniad o sicrwydd oedran effeithiol iawn yn gyson ar gyfer gwasanaethau Rhan 3 a Rhan 5, fel yr adlewyrchir yng Nghanllawiau Rhan 5 a Chanllawiau HEAA Rhan 3.

3.2 Fel y nodwyd yn barod yn yr adran flaenorol, mae Rhan 5 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau penodol ar ddarparwyr gwasanaethau sy'n dangos neu'n cyhoeddi eu cynnwys pornograffig eu hunain ar eu gwasanaethau ar-lein. Mae'r dyletswyddau hynny'n cynnwys dyletswydd i roi sicrwydd oedran ar waith i sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws cynnwys o'r fath. Rhaid gweithredu a defnyddio'r sicrwydd oedran mewn ffordd sy'n effeithiol iawn wrth benderfynu'n gywir a yw defnyddiwr yn blentyn ai peidio.[26] Dylai darparwyr gwasanaethau Rhan 5 gyfeirio at yr adran hon o'r datganiad i ddeall yr adborth a gawsom gan randdeiliaid a'n penderfyniadau dilynol mewn perthynas â'n dehongliad o'r cysyniad o sicrwydd oedran effeithiol iawn. Mae'r adran nesaf yn delio â'r adborth a gafwyd mewn perthynas â'r gofynion ehangach ar gyfer darparwyr gwasanaethau Rhan 5.

3.3 O dan y Ddeddf, rhaid i bob darparwr gwasanaeth Rhan 3 gynnal asesiadau mynediad plant i benderfynu a yw plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaeth. Wrth gynnal asesiadau o fynediad plant, yr unig ffordd i ddarparwyr gwasanaethau ddod i'r casgliad nad yw'n bosibl i blant gael mynediad at y gwasanaeth neu ran ohono yw os defnyddir sicrwydd oedran gyda'r canlyniad nad yw plant fel arfer yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth neu'r rhan honno ohono.[27] Nid yw'r Ddeddf yn nodi'r math o sicrwydd oedran y dylai darparwr gwasanaeth ei ddefnyddio yn y cyd-destun hwn. Mae gan Ofcom ddisgresiwn o ran y dull gweithredu sydd fwyaf priodol yn ein barn ni. Fel y trafodwyd yn Adran 5, rydym wedi penderfynu mai dim ond pan fyddant yn defnyddio dulliau sicrwydd oedran effeithiol iawn y dylai darparwyr ddod i'r casgliad nad yw'n bosibl i blant gael mynediad at y gwasanaeth. Dylai gwasanaethau Rhan 3 sydd eisiau deall a oes ganddynt sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith at ddibenion asesiadau mynediad plant adolygu'r adran hon o'r datganiad i ddeall y sylwadau a gawsom a'n penderfyniadau dilynol ar Ganllawiau HEAA Rhan 3.

[26] Adran 81(3) y Ddeddf.
[27] Adran 35(2) o'r Ddeddf.

3.4 Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau mae plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaethau gymryd a gweithredu mesurau diogelwch i liniaru'r risgiau i blant ar y gwasanaeth. Yn benodol, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau U2U mae plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaethau ddefnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i atal plant rhag dod ar draws cynnwys prif flaenoriaeth ("PPC") (cynnwys pornograffig, a chynnwys sy'n hyrwyddo, yn annog neu'n rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer hunanladdiad, hunan-niweidio neu anhwylderau bwyta).[28] Yn ein Hymgynghoriad ym mis Mai 2024 ar Amddiffyn Plant rhag Niwed Ar-lein ('Ymgynghoriad Mai 2024'), fe wnaethom gynnig nifer o fesurau yn ein Codau Amddiffyn Plant drafft roeddem yn argymell i ddarparwyr gwasanaethau gydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch plant o dan y Ddeddf, gan gynnwys mesurau sy'n ymwneud â defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn yn y Cod Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr.[29] Fe wnaethom hefyd gyhoeddi Canllawiau HEAA Rhan 3 drafft[30] i roi rhagor o fanylion am yr hyn a olygir gan y cysyniad o sicrwydd oedran effeithiol iawn, a oedd yn cyd-fynd â Chanllawiau Rhan 5 drafft a gyhoeddwyd gennym ochr yn ochr â'n Hymgynghoriad Rhan 5 ym mis Rhagfyr 2023.

3.5 Er mwyn sicrhau cysondeb, rydym yn defnyddio'r adran hon i fynd i'r afael ag ymatebion yn ymwneud â sicrwydd oedran i'n Hymgynghoriad ym mis Mai 2024 a'n Hymgynghoriad Rhan 5 ym mis Rhagfyr 2023. Rydym hefyd yn nodi ein penderfyniadau mewn perthynas â sicrwydd oedran effeithiol iawn. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yn Adrannau 4-6 o Ganllawiau Rhan 5, yn ogystal â Chanllawiau HEAA Rhan 3.

3.6 Fel yr eglurwyd yn Adran 2, nid ydym yn penderfynu yn y ddogfen hon ar y mesurau y byddwn yn eu cynnwys yn ein Codau Amddiffyn Plant. Byddwn yn nodi ein penderfyniadau terfynol ar y Codau Amddiffyn Plant, gan gynnwys y mesurau sicrwydd oedran roeddem wedi ymgynghori arnynt, pan fyddwn yn cyhoeddi ein datganiad Amddiffyn Plant ym mis Ebrill 2025. Felly, nid ydym yn nodi ein hymateb i sylwadau rhanddeiliaid ar y mesurau hynny yma. Rydym wedi cadw cyfeiriadau yng Nghanllawiau HEAA Rhan 3 at y Codau Amddiffyn Plant drafft er mwyn sicrhau eglurder i wasanaethau wrth iddynt gynnal eu hasesiadau mynediad plant cyntaf. Dylai darparwyr gwasanaethau gofio bod y fersiwn hwn o'r canllawiau'n seiliedig ar eiriad codau drafft ac efallai y byddwn yn ei ddiweddaru ym mis Ebrill 2025 pan fyddwn yn cyhoeddi ein Datganiad Amddiffyn Plant. Ar ôl Ebrill 2025, efallai byddwn yn diweddaru'r canllawiau lle bo angen i adlewyrchu unrhyw fesurau sicrwydd oedran yn y dyfodol.

3.7 Yn ogystal ag ymateb i sylwadau rhanddeiliaid, rydym wedi gwneud nifer o newidiadau drafftio a strwythurol i wella eglurder a strwythur y canllawiau, ac i sicrhau cysondeb rhwng Canllawiau Rhan 5 a Chanllawiau HEAA Rhan 3 fel y bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys rhai newidiadau i strwythur Canllawiau HEAA Rhan 3 er mwyn i'w strwythur a'i gynnwys fod yn debycach i Adran 4 Canllawiau Rhan 5. Y rheswm am hyn yw ein bod yn credu ei bod yn bwysig bod gan ddarparwyr gwasanaethau sydd o fewn cwmpas Rhan 5 a Rhan 3 ddealltwriaeth glir a chyson o sut mae rhoi sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith i atal plant rhag dod ar draws cynnwys niweidiol. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i

[28] Adrannau 12(4), (5) a 12(6) o'r Ddeddf.
[29] Gweler Adran 15 o'n Hymgynghoriad Mai 2024.
[30] Gweler Atodiad 10 o'n Hymgynghoriad Mai 2024.

gyflwyniad Canllawiau HEAA Rhan 3 i’w gwneud yn gliriach i wasanaethau pan fydd Canllawiau HEAA Rhan 3 yn berthnasol iddynt a sut maent yn berthnasol i’r Codau Amddiffyn Plant. Nid ydym wedi cynnwys cyfeiriad pellach at newidiadau o’r fath yn yr adran hon, gan nad ydynt yn cynrychioli newidiadau i’n safbwynt polisi ers ymgynghori, ac yn eu hanfod maent yn rhai esboniadol eu natur.

# 4. Canllawiau ychwanegol ar agweddau sydd ond yn berthnasol i wasanaethau Rhan 5

Mae'n rhaid i Ofcom gynhyrchu a chyhoeddi canllawiau i wasanaethau Rhan 5 i'w helpu i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ran 5 o'r Ddeddf ("Canllawiau Rhan 5"). Yn ogystal â'r dyletswyddau sy'n ymwneud â rhoi sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith, fel sy'n cael ei drafod yn Adran 3, maent hefyd yn cynnwys dyletswyddau cadw cofnodion. Yn yr adran hon, rydym yn egluro sut roeddem wedi ystyried yr ymatebion a gawsom gan randdeiliaid ar agweddau eraill ar ein Canllawiau Rhan 5 drafft ac yn nodi ein safbwynt terfynol ar yr agweddau hyn ar y Canllawiau Rhan 5. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar gwmpas Rhan 5, cadw cofnodion, a'n dull o orfodi dyletswyddau Rhan 5.

I raddau helaeth rydym wedi cynnal y dull gweithredu roeddem yn ei gynnig ond rydym wedi gwneud rhai mân newidiadau i'r Canllawiau Rhan 5 drafft, yn bennaf i wneud pethau'n fwy eglur i ddarparwyr gwasanaethau:

- Rydym wedi ehangu'r canllawiau ar y cwmpas i'w gwneud yn haws i wasanaethau benderfynu a ddylent gydymffurfio â dyletswyddau Rhan 5, gan gynnwys enghreifftiau ychwanegol. Rydym wedi egluro sut y gallai gwasanaethau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol ddod o fewn cwmpas dyletswyddau Rhan 5 ac wedi egluro sut y dylai gwasanaethau benderfynu a oes ganddynt 'gysylltiadau â'r Deyrnas Unedig'.
- O ran y dyletswyddau cadw cofnodion, rydym wedi ychwanegu canllawiau i bwysleisio'r angen i gydymffurfio â chyfraith diogelu data wrth roi sicrwydd oedran ar waith, ac rydym hefyd wedi egluro nad oes angen i ddarparwyr gwasanaethau gofnodi canlyniad pob gwiriad oedran yn eu cofnodion ysgrifenedig.
- Nid ydym wedi diweddaru ein dull o asesu cydymffurfiad o fewn Canllawiau Rhan 5. Bydd unrhyw gamau gorfodi yn cael eu cymryd yn unol â'n Canllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024.[31] Dylai gwasanaethau eu hystyried er mwyn deall sut bydd Ofcom yn mynd ati i orfodi'r dyletswyddau sy'n cael eu gosod ar ddarparwyr sy'n cael eu rheoleiddio o dan y Ddeddf.

[31] Mae'r fersiwn derfynol bellach wedi'i chyhoeddi yma: [Diogelu Pobl rhag niwed anghyfreithlon ar-lein: canllawiau gorfodi diogelwch ar-lein](). Cyhoeddwyd 16 Rhagfyr 2024

# Cyflwyniad

4.1 Fel y nodir yn Adran 3 y datganiad hwn, mae’r cysyniad o sicrwydd oedran effeithiol iawn yn gyson ar gyfer gwasanaethau Rhan 3 a Rhan 5, fel yr adlewyrchir yng Nghanllawiau Rhan 5 a Chanllawiau HEAA Rhan 3.

4.2 Yn yr adran hon, rydym yn delio â’r meysydd eraill sy’n benodol i Ganllawiau Rhan 5, yn ogystal â’r dyletswyddau sicrwydd oedran, sef:

- **cwmpas Rhan 5:** asesu a yw gwasanaeth o fewn cwmpas dyletswyddau Rhan 5;
- **y dyletswyddau cadw cofnodion:** ystyried sut gall darparwyr gwasanaethau gadw cofnod ysgrifenedig a chynhyrchu datganiad sydd ar gael i’r cyhoedd yn nodi sut maent wedi cydymffurfio â’u dyletswyddau, gan gynnwys sut gall darparwyr ystyried pwysigrwydd diogelu defnyddwyr rhag torri deddfwriaeth diogelu data; ac
- **asesu cydymffurfiad â dyletswyddau sicrwydd oedran a chadw cofnodion:** yr egwyddorion y byddwn fel arfer yn eu dilyn wrth benderfynu a yw darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio â’i ddyletswyddau a lle rydym yn debygol o ystyried nad yw wedi cydymffurfio.

# 5. Asesiadau mynediad plant

Yn yr adran hon, rydym yn nodi ein hystyriaeth o'r ymatebion a gawsom gan randdeiliaid i'n dull arfaethedig yng nghyswllt asesiadau mynediad plant a'n Canllawiau drafft ar Asesiadau Mynediad Plant, ynghyd â'n rhesymau dros ein penderfyniadau.

Mae asesiad o fynediad plant yn broses mae'n rhaid i bob darparwr gwasanaethau Rhan 3 sydd o fewn cwmpas y Ddeddf ei chyflawni i benderfynu a yw plant yn debygol o gael mynediad at wasanaeth, neu ran o wasanaeth. Mae'n rhaid i Ofcom gynhyrchu canllawiau i helpu darparwyr gwasanaethau i gydymffurfio â'u dyletswyddau asesiadau mynediad plant.

Yn gyffredinol, rydym wedi penderfynu cadarnhau'r dull gweithredu roeddem wedi'i gynnig yn ein Hymgynghoriad ym mis Mai 2024 mewn perthynas â'r meysydd lle rydym wedi arfer ein disgresiwn o ran polisi, fel a ganlyn:

- ylai darparwyr gwasanaethau ond ddod i'r casgliad nad yw'n bosibl i blant gael mynediad at wasanaeth (neu ran o wasanaeth) pan fyddant yn defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i reoli mynediad i'r gwasanaeth.
- Mae'r hyn sy'n cynrychioli nifer sylweddol o blant at ddibenion asesiad mynediad plant yn dibynnu ar natur a chyd-destun pob gwasanaeth.
- Yn y Canllawiau ar Asesiadau Mynediad Plant rydym wedi cynnwys rhestr o'r ffactorau y dylai gwasanaethau eu hystyried wrth asesu a yw'r amod defnyddiwr sy'n blentyn yn cael ei fodloni. Rhaid i wasanaethau gofnodi canlyniad asesiadau mynediad plant. Dylai'r broses fod yn ymarfer syml i'r rhan fwyaf o ddarparwyr. Dylai gwasanaethau sy'n dod i'r casgliad nad yw plant yn debygol o gael mynediad fod yn barod i ddangos hyn gydag asesiad manwl sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Efallai fod darparwyr eisoes wedi asesu a yw plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaeth fel y nodir yng nghod Plant Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â rheoliadau diogelu data, ac efallai byddant yn gallu defnyddio tystiolaeth a dadansoddiad tebyg i gynnal y naill asesiad a'r llall.

## Cyflwyniad

5.1 Mae asesiad o fynediad plant yn broses i ganfod a yw "plant yn debygol o gael mynediad"[32] at wasanaeth, neu ran o wasanaeth.[33] Rydym yn rhagweld y bydd plant yn debygol o gael mynediad, o fewn ystyr y Ddeddf, at y rhan fwyaf o wasanaethau Rhan 3 nad ydynt yn defnyddio dulliau sicrwydd oedran effeithiol iawn.[34] Rhaid i wasanaethau mae plant yn

[32] Adran 37 o'r Ddeddf.
[33] Oni nodir yn wahanol, dylid darllen cyfeiriadau yn yr adran hon at "wasanaeth" fel "gwasanaeth neu ran o wasanaeth".
[34] Adran 37 o'r Ddeddf.

debygol o gael mynediad atynt gydymffurfio â’r dyletswyddau asesiad risg i blant[35] a’r dyletswyddau diogelwch plant.[36]

5.2 Mae gan Ofcom ddyletswydd i gynhyrchu canllawiau i helpu darparwyr gwasanaethau i gydymffurfio â’r dyletswyddau sy’n ymwneud ag asesiadau mynediad plant.[37] Mae’r adran hon yn egluro ein dull gweithredu yng nghyswllt y Canllawiau ar Asesiadau Mynediad Plant, a gyhoeddir yn.

5.3 Mae dau gam i asesiadau mynediad plant:[38]

- **Cam 1:** Mae’n rhaid i’r darparwr gwasanaeth benderfynu a oes modd i blant gael mynediad at y gwasanaeth neu ran ohono.[39] Caiff darparwr gwasanaeth ond dod i’r casgliad nad yw’n bosibl i blant gael mynediad at wasanaeth os yw’n defnyddio sicrwydd oedran gyda’r canlyniad nad yw plant fel arfer yn gallu cael mynediad ato.[40]
- **Cam 2**: Os yw’n bosibl i blant gael mynediad at wasanaeth, neu ran o wasanaeth, rhaid i’r darparwr gwasanaeth wedyn benderfynu a yw’r “amod defnyddiwr sy’n blentyn” yn cael ei fodloni.[41]

5.4 Rhaid i asesiadau mynediad plant fod yn addas ac yn ddigonol.[42] Rhaid i wasanaethau heb sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith gyflawni camau 1 a 2 yr asesiad mynediad plant. Os oes gan wasanaethau sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith a'u bod yn dod i’r casgliad felly nad yw’n bosibl i blant gael mynediad at y gwasanaeth, dim ond cam 1 mae angen iddynt ei gyflawni ac wedyn cofnodi canlyniad eu hasesiad. Os bydd darparwr yn dod i’r casgliad nad yw’r amod defnyddiwr plentyn yn cael ei fodloni (cam 2), er mwyn cynnal asesiad addas a digonol rhaid iddo wneud cofnod ysgrifenedig o’r camau mae wedi’u cymryd i ddod i’w gasgliad, wedi’i ategu gan dystiolaeth.

5.5 Pan fo’n bosibl i blant gael mynediad at wasanaeth (neu ran ohono), mae’r amod defnyddiwr sy’n blentyn yn cael ei fodloni os:

- oes nifer sylweddol o blant yn defnyddio’r gwasanaeth neu’r rhan honno ohono; **a/neu**
- yw’r gwasanaeth, neu’r rhan honno ohono, o fath sy’n debygol o ddenu nifer sylweddol o ddefnyddwyr sy’n blant.[43]

5.6 Nid yw dwy ran yr amod defnyddiwr sy’n blentyn yn gronnus. Os diwallir y naill faen prawf neu’r llall (neu’r ddau), ystyrir bod “plant yn debygol o gael mynediad” at wasanaeth ac


[35] Adrannau 11 (gwasanaethau U2U) a 28 (gwasanaethau chwilio) o’r Ddeddf.
[36] Adrannau 12 (gwasanaethau U2U) a 29 (gwasanaethau chwilio) o’r Ddeddf.
[37] Adran 52(3)(b) o’r Ddeddf.
[38] Mae p’un a oes angen cwblhau’r ddau gam yn dibynnu ar ganlyniad cam 1 i ddarparwr gwasanaeth. Rydym yn rhoi rhagor o ganllawiau ar hyn yn Adrannau 2 a 3 o’r Canllawiau ar Asesiadau Mynediad Plant.
[39] Adran 35(1)(a) o'r Ddeddf.
[40] Adran 35(2) o’r Ddeddf. Fel rydym yn ei nodi yn y Canllawiau ar Asesiadau Mynediad Plant, mae a yw plant yn debygol o gael mynediad at wasanaeth yn cael ei asesu’n wahanol o dan gyfraith diogelu data at ddibenion cod Plant Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth a dylai gwasanaethau edrych ar ganllawiau Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth lle bo hynny’n briodol.
[41] Adran 35(1)(b) o’r Ddeddf.
[42] Adran 36(6) o’r Ddeddf.
[43] Adran 35(3) o’r Ddeddf.

mae angen iddo gydymffurfio â'r dyletswyddau o dan adrannau 11 a 12 o'r Ddeddf (os yw'r gwasanaeth yn wasanaeth U2U) neu adrannau 28 a 29 o'r Ddeddf (os yw'r gwasanaeth yn wasanaeth chwilio neu'n wasanaeth cyfunol mewn perthynas â pheiriant chwilio pob gwasanaeth o'r fath).[44] Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt gynnal asesiad risg i blant, fel sy'n cael ei drafod yn Adran 12 ein Hymgynghoriad ym mis Mai 2024 ar Amddiffyn Plant rhag Niwed Ar-lein ('Ymgynghoriad Mai 2024'), a defnyddio neu fabwysiadu mesurau priodol i gydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch sy'n amddiffyn plant, fel sy'n cael eu trafod yn Adran 14 o'n Hymgynghoriad ym mis Mai 2024.

5.7 Pan fydd darparwr gwasanaeth yn methu â chwblhau asesiad mynediad plant, bydd y gwasanaeth yn cael ei drin fel un mae plant yn debygol o gael mynediad ato.

5.8 Mae proses asesiadau mynediad plant yn cael ei dangos yn Ffigur 5.1 isod.

### Ffigur 5.1: Proses asesiadau mynediad plant




Ffynhonnell: Ofcom

5.9 Mae ein Canllawiau ar Asesiadau Mynediad Plant yn ceisio helpu darparwyr gwasanaethau i gydymffurfio â'u dyletswyddau yng nghyswllt asesiadau o fynediad plant drwy nodi proses glir a ffactorau a thystiolaeth a argymhellir i'w hystyried ar bob cam. Bydd y broses yn syml i'r rhan fwyaf o ddarparwyr. Pan fydd darparwyr yn dod i'r casgliad bod plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaeth, ni fyddwn yn disgwyl iddynt gofnodi'n fanwl y dystiolaeth sy'n ategu'r casgliad hwn, gan eu galluogi i symud ymlaen at yr asesiad risg i blant a defnyddio eu hamser a'u hadnoddau'n effeithlon. Pan fydd darparwyr yn dod i'r casgliad nad yw plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaeth, byddwn yn disgwyl iddynt gofnodi'r dystiolaeth sy'n ategu eu casgliad.[45]

[44] Mae gwasanaeth cyfun yn wasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cael ei reoleiddio sy'n cynnwys peiriant chwilio cyhoeddus, fel sy'n cael ei ddiffinio yn adran 4(7) o'r Ddeddf.